

A YDY HI'N HWYRACH NAG YR YDYCH CHI YN EI FEDDWL?

Nodyn i'r siaradwr:

Anogwch y gynulleidfa “ar sail cariad,” yn enwedig wrth ystyried y rhan olaf sydd wedi ei chyfeirio at rai anweithredol yn y gynulleidfa (Phm 9; *be-E* 266 par. 1-3)

“DYWED WRTHYM PA BRYD Y BYDD HYN?” (4 mun.)

Yn ddiweddar, fe wnaethon ni goffáu marwolaeth Iesu, a thrwy hynny yn ei anrhydeddu ef a Jehofah Dduw Cawson ni'n hatgoffa o'u cariad mawr tuag aton ni a hynny er gwaethaf ein cyflwr pechadurus presennol (Rhu 5:8; 1In 4:9)

Mae diwedd y drefn bresennol yn agosáu wrth i bob blwyddyn yr ydyn ni'n cadw'r Goffadwriaeth fynd heibio (1Co 11:26)

Mae proffwydoliaeth gyffrous Iesu ym Marc 13:1-4 eisoes wedi bod yn destun trafod a damcaniaethu mawr [Darllen]

Rhoddodd Iesu arwydd cyfansawdd i'w ddisgyblion er mwyn adnabod dyddiau diwethaf trefn Satan [Darllenwch Marc 13:8]

Mae dwy ran i gyflawniad y broffwydoliaeth hon—un yn y ganrif gyntaf a'r llall yn ein dyddiau ni

A ydy Marc 13:8 yn cael ei gyflawni? Beth mae'r ffeithiau yn ei ddangos? A ydyn ni'n byw yn y dyddiau diwethaf? A ydy hi'n hwyrach nag yr ydych chi'n ei feddwl?

ARWYDD CYFANSAWDD O'R DYDDIAU DIWETHAF (11 mun.)

Gadewch inni ystyried pum agwedd ar y dyddiau diwethaf y gwnaeth Iesu dynnu sylw atyn nhw

(1) “*Cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas*” (*w08-E* 5/15 13-14 par. 7)

Er 1914, mae mwy na 100 miliwn o bobl wedi cael eu lladd mewn rhyfeloedd!

(2) “*Bydd daeargrynfâu mewn manau*” (*w11-E* 5/1 4)

(3) “*Bydd adegau o newyn*” (*w11-E* 5/1 5)

(4) “*Bydd plâu mewn manau*” (Lc 21:11; *w11-E* 5/1 6)

(5) Bydd “*drygioni yn amlhau*” (Mth 24:12)

Mae'r drygionus yn diystyru deddfau ac egwyddorion Duw yn llwyr; yn fwyfwy, mae llawer yn credu bod pechodau fel cyfunrywioldeb a godineb yn dderbyniol (Esei 5:20; *w02-E* 3/1 9 par. 8)

Dim ond pum agwedd ar yr arwydd cyfansawdd yr ydyn ni wedi eu hystyried

Beth yr ydych chi yn ei feddwl? A ydyn ni'n byw yn y dyddiau diwethaf?

Dydy'r nodweddion hyn erioed wedi bod mor amlwg ag y maen nhw nawr

Mae'r ffeithiau yn profi ei bod hi'n hwyrach nag y mae'r mwyafrif yn ei feddwl!

DYCHWELWCH NAWR, A GWASANAETHWCH EIN BUGAIL (15 mun.)

Dydyn ni ddim yn gwybod am ba hyd y bydd hi'n bosibl inni gymodi â Jehofah, neu i wneud heddwch ag ef (2Co 5:18-20; *w98-E* 12/15 17-18 par. 9-11)

Ond, rydyn ni'n gwybod y bydd y drygionus yn cael eu dinistrio yn fuan [Darllenwch 2 Pedr 3:11, 12]

Peth da fyddai gofyn i ni'n hunain, ‘A ydw i'n byw mewn ffordd sy'n dangos fy mod i'n credu bod yr “amser wedi mynd yn brin”?’ (1Co 7:29-31)

Mae Jehofah yn gwahodd pobl o bob lliw a llun i dderbyn yr wybodaeth sydd yn y Beibl (Dat 22:17)

Gall dysgu'r fath wybodaeth a byw yn unol â'r wybodaeth honno arwain at fywyd tragwyddol ym Mharadwys ar y ddaear

Ydy'r gobaith hwnnw yn apelio atoch chi?

Mae'n hanfodol ichi weithredu heb oedi

Bydd Tystion Jehofah yn hapus i'ch dysgu chi ynglŷn â sut i fyw yn unol ag ewyllys Duw

Mae Jehofah yn dymuno i'w ddefaid anweithredol ddod yn ôl i mewn i'w gorlan gariadus (De 33:27; Galar 3:40)

Os oeddech yn gwasanaethu Jehofah ar un adeg, ystyriwch o ddifrif y geiriau yn 1 Pedr 2:25 [Darllen] (*jr-E* 130 par. 5)

Mae eich ymdrech i fod yn bresennol heddiw yn dangos nad ydych wedi anghofio am eich Bugail a'i ddeddfau [Darllenwch Salm 119:176]

Mae nifer o resymau pam y mae rhai wedi mynd yn anweithredol (*w08-E* 11/15 13-15 par. 5-13)

Beth bynnag yw'r rheswm yn eich achos chi, rydyn ni'n ymbil arnoch i dderbyn y cymorth angenrheidiol er mwyn ichi fedru gwasanaethu ein Bugail cariadus unwaith eto (*jr-E* 72-76 par. 13-16; 152-153 par. 22-25)

Gadewch i Air Duw a'n cyhoeddiadau Cristnogol eich helpu chi i adfer eich perthynas â Jehofah (Sal 119:105)

Fe fyddwch yn teimlo cefnogaeth cynulleidfa Jehofah (1Pe 5:2; *w08-E* 11/15 16 par. 19-22)

Yn y gorffennol, roedd proffwydi yn atgoffa pobl Dduw o'r barnedigaethau a oedd i ddod (Am 3:7)

Heddiw, mae Jehofah yn defnyddio ei weision eneiniog i atgoffa hyd yn oed y cyflawn ei bod hi'n hwyrach nag y mae'r mwyafrif yn ei feddwl (Esec 3:21)

Mae'r gweision hyn yn ddiysgog, fel colofnau haearn mewn dinas gaerog (Jer 1:17-19)

Mae'r eneiniog wedi 'torchi eu gwisg,' ac maen nhw'n gadael i Air Duw eu cryfhau nhw er mwyn iddyn nhw gyflawni eu comisiwn

Byddwch chithau hefyd yn benderfynol o ddangos yr un sêl a chefnogwch yr eneiniog

Mae'n "rhaid i ni ddal yn fwy gofalus ar y pethau a glywyd" (Heb 2:1; Lc 21:34-36)

Pan wnaeth rhai anwybyddu rhybuddion am ddinistr agos, sylweddolion nhw ei bod hi'n hwyrach nag yr oedden nhw yn ei feddwl

Heddiw, mae rhybudd llawer iawn mwy taer yn cael ei seinio, sy'n rhoi tystiolaeth glir fod Armagedon yn agos

Mae miliynau yn troi clust fyddar, ond mae'r amser yn mynd yn brin

Mae'n hwyrach nag y maen nhw yn ei feddwl! A ydy hi'n hwyrach nag yr ydych chi yn ei sylweddoli?

Meddylwch yn ddwys am eich Tad nefol; pa mor hwyr ydy hi yn ei olwg ef?

Rydyn ni'n ymbil arnoch i ddod o hyd i loches ym mreichiau tyner Jehofah, y Bugail Mawr! (Esei 40:11)

(Glynwch yn glòs wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun. Gweler y llyfr *Ministry School*, t. 52-54, 116-119)

Rhif 181-W—tudalen 2

© 2011 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

Cedwir Pob Hawl